Mae’r canllawiau isod yn amlinellu rhai ystyriaethau allweddol sy’n ymwneud ag iechyd, diogelwch ac amgylchedd, wrth weithio mewn lleoliadau newydd neu anghyfarwydd.

Bydd Cydgysylltwyr Iechyd a Diogelwch neu staff eraill, megis y rhai sydd wedi’u lleoli’n barhaol mewn adeiladau perthnasol, neu sy’n gyfarwydd â nhw, yn gallu cynorthwyo wrth ddarparu gwybodaeth ychwanegol am drefniadau lleol.

**Diogelwch Tân**

Wrth weithio mewn adeiladau anghyfarwydd, mae’n hanfodol fod pob aelod staff yn gwybod am y camau i’w dilyn os byddant yn dod ar draws tân neu os bydd y larwm tân yn canu. Bydd gwybodaeth bwysig am ddiogelwch tân yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i’r canlynol:

- Nodwch yr allanfa dân agosaf. Bydd arwyddion yn eich cyfeirio at yr allanfeydd, a fydd efallai wedi’u gosod ar waliau neu ar ddrysau neu’n crogi o’r nenfwd.
- Lleoliad y mannau agosaf ar gyfer canu’r larwm tân (torri gwydr) – dylai pob cydweithiwr wybod am y mannau hyn cyn ymgymryd ag unrhyw weithgarwch. Fe’u defnyddir gan unigolion i ganu’r larwm tân os bydd tân yn digwydd, ac fe’u lleolir wrth allanfeydd ym mhob adeilad, wrth ymyl hysbysiadau gweithredu os oes tân.






- Lleoliad y man ymgynnull cywir – dyma’r man ymgynnull lle dylai cydweithwyr ymgasglu yn dilyn canu’r larwm tân. Nodir lleoliad y man ymgynnull agosaf ar bob hysbysiad gweithredu os oes tân. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer adeiladau mwy (e.e. Adeilad Hugh Owen), oherwydd gellir bod nifer o fannau ymgynnull ar gyfer gwahanol rannau o’r adeilad.
- Lleoliad diffoddwyr tân cyfagos – ceir diffoddwyr tân ym mhob adeilad yn y Brifysgol. Ni ddisgwylir i gydweithwyr ddefnyddio diffoddwyr tân os bydd tân yn digwydd, oni bai eu bod yn hyderus y byddant yn gallu diffodd y tân yn effeithiol, ac wedi’u hyfforddi’n briodol i’w defnyddio.
- Sicrhau bod y ffyrdd dianc a cherdded yn cael eu cadw’n glir o rwystrau – bydd hyn yn cynnwys sicrhau bod pob llwybr a drws yn gwbl glir o bethau megis bagiau, blychau a chelfi. Bydd hyn yn arbennig o berthnasol wrth i gydweithwyr aildrefnu neu symud celfi mewn lleoliad.
- Sicrhau bod holl ddefnyddwyr yr ardal yn gallu gadael heb gymorth – mae hyn yn arbennig o bwysig i gydweithwyr mewn lleoliadau anghyfarwydd sy’n gyfrifol am unigolion eraill, e.e. myfyrwyr, ymwelwyr, digwyddiadau cyhoeddus, ac yn y blaen. Os bydd tân yn digwydd, gwaherddir rhag defnyddio’r lifft neu gymorthyddion mecanyddol eraill, felly rhaid bod pawb sydd yn yr ystafell yn gallu gadael heb gymorth y rhain.
- Trefniadau profi’r larwm tân – Profir y larwm tân bob wythnos. Fel arfer, profir y larwm tân ar adeg sydd wedi’i phennu ymlaen llaw ac sy’n digwydd yn rheolaidd ar gyfer pob adeilad. Cyn cyflawni unrhyw weithgareddau, dylai cydweithwyr gadarnhau a oes trefniant wedi’i wneud i brofi’r system larwm tân yn ystod y cyfnod. Dylai cydweithwyr fod yn ymwybodol fod y trefniadau yn newid yn ystod rhai cyfnodau e.e. cyfnodau arholiadau, er mwyn tarfu llai. Dim ond am ychydig eiliadau y bydd larwm tân yn canu yn ystod prawf. Os bydd yn canu am fwy nag ychydig eiliadau yn ystod y cyfnod hwn, dylid ystyried mai larwm tân go-iawn ydyw, ac y dylid gadael yr adeilad ar unwaith.

Dylai cydweithwyr hefyd gwblhau’r Modiwl E-Ddysgu Hanfodion Iechyd a Diogelwch – Diogelwch Tân, sydd ar gael drwy’r llwyfan Blackboard. Ceir rhagor o wybodaeth am yr adnodd hwn yma: https://www.aber.ac.uk/cy/hse/training/hseessentials/

Ceir rhagor o wybodaeth am drefniadau diogelwch tân yma: https://www.aber.ac.uk/cy/hse/proc-prac/fire-safety/

**Cymorth cyntaf**

Dylai cydweithwyr o leiaf holi ynghylch, neu fod yn ymwybodol o'r trefniadau cymorth cyntaf lleol isod:

- Rhifau Cysylltu mewn Argyfwng – o ffôn mewnol, deialwch 222 er mwyn cael gafael ar gymhorthydd cyntaf. Os bydd angen y Gwasanaethau Brys, dylai cydweithwyr wybod bod yn rhaid ffonio 999 (neu 9999 o ffôn rhyngwladol).
- Lleoliad y blychau cymorth cyntaf agosaf – bydd nifer o flychau cymorth cyntaf llawn, y gellir eu defnyddio mewn argyfwng, ar gael ym mhob adeilad yn y brifysgol. Byddant wedi'u lleoli fel arfer mewn ardaloedd y mae'n hawdd cael mynediad atynt megis derbynfeydd ac ystafelloedd staff; bydd croes wen ar gefndir gwyrdd yn eich cyfeirio atynt, a byddant yn hysbys i staff lleol yn y derbynfeydd neu fannau sy'n hygyrch i'r cyhoedd. Mae'n bosib bod gan lefydd lle bo'r risg yn uwch, megis labordai, eu pecynnau cymorth cyntaf eu hunain hefyd.
- Enwau a manylion staff cyfagos sydd wedi'u hyfforddi ar gyfer cymorth cyntaf – bydd enwau aelodau staff sydd wedi'u hyfforddi ar gyfer cymorth cyntaf ar gael ym mhob Adran ac adeilad. Gwelir manylion yr unigolion hyfforddedig hyn ar lein, ac mae'n bosib y gellir eu gweld ar Hysbysfyrddau Iechyd a Dioglewch lleol (a fydd i'w gweld ym mhob adeilad). Dylai staff sy'n gweithio yn yr adeilad hefyd wybod pwy ydynt.

Ceir rhagor o wybodaeth am drefniadau cymorth cyntaf yma: https://www.aber.ac.uk/cy/hse/proc-prac/first-aid/

**Rhoi Gwybod am Ddigwyddiadau**

Dylai pob cydweithiwr barhau i fod yn ymwybodol o, a deall, ystyriaethau rhoi gwybod am ddigwyddiadau, sy'n cynnwys:

- Gweithdrefnau lleol ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau – y drefn ar gyfer cyflwyno ffurflenni rhoi gwybod am ddigwyddiadau, h.y. i'r Rheolwr Llinell perthnasol neu i'r Cydgysylltydd Iechyd a Diogelwch lleol.
- Ymwybyddiaeth o leoliad ffurflenni rhoi gwybod am ddigwyddiadau – ceir copi electronig ar dudalennau gwe Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd, a gellir darparu copïau caled mewn rhai lleoliadau yn ogystal.

Ceir rhagor o wybodaeth am drefniadau rhoi gwybod am ddigwyddiadau yma: https://www.aber.ac.uk/cy/hse/proc-prac/incident-reporting/

**Gweithredu mewn Argyfwng**

Dylai cydweithwyr sicrhau bod trefniadau gweithredu mewn argyfwng yn hysbys ar gyfer y lleoliad neu'r gweithle; gall y rhain gynnwys:

- Gweithdrefnau ar gyfer rhoi gwybod am faterion neu broblemau – y Rheolwr Llinell perthnasol, neu unigolion dynodedig eraill, fel arfer.

- Mesurau rheoli ar gyfer peryglon adnabyddedig, e.e. gweithio ar eich pen eich hun, codi a chario, ac yn y blaen – nodir y mesurau rheoli yn yr asesiadau risg perthnasol, a fydd yn cael eu cyfathrebu gan y Rheolwr Llinell perthnasol i bawb y mae a wnelo hyn ag ef.

Ceir rhagor o wybodaeth am drefniadau gweithredu mewn argyfwng yma:
https://www.aber.ac.uk/cy/hse/emergency/

**Hyfforddiant**

Dylai cydweithwyr sicrhau eu bod wedi derbyn hyfforddiant a chyfarwyddyd digonol i gyflawni eu gweithgareddau yn ddiogel. Dylid trafod unrhyw ofynion hyfforddiant ychwanegol sy'n codi oherwydd y newid lleoliad, a'u nodi ar y cyd â'r rheolwr llinell perthnasol, cyn cyflawni'r gweithgarwch.

Ceir manylion am y cyrsiau hyfforddi a gynigir gan y Tîm Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd yma:
https://www.aber.ac.uk/cy/hse/training/

Gallai elfennau o hyfforddiant sefydlu lleol hefyd fod yn briodol yn y cyd-destun hwn. Cewch ragor o wybodaeth am hyfforddiant sefydlu sy'n ymwneud ag Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd yma:
https://www.aber.ac.uk/en/hse/training/hseinduction/.

**Cyfleusterau Lles**

Bydd ystyriaethau eraill yn cynnwys ymgyfarwyddo â'r lleoliad. Bydd yr ystyriaethau hyn, a fydd yn arbennig o berthnasol i gydweithwyr sy'n croesawu, neu sy'n gyfrifol am, unigolion eraill fel rhan o'r gweithgarwch, yn cynnwys:

- Lleoliad y tai bach agosaf;
- Lleoliad y mannau dŵr yfed agosaf.

I gael rhagor o wybodaeth neu gyfarwyddyd, cysylltwch â'r Tîm Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd drwy hasstaff@aber.ac.uk neu estyniad 2073.